

Y GYFRAITH

Amser - 1.5 awr

Atebwch DRI cwestiwn

- Un o Adran A (40 marc)
- - y cwestiwn gorfodol yn Adran B (30 marc)
- - y cwestiwn gorfodol yn Adran C (30 marc)

ADRAN A (40 marc)

Atebwch UN o'r cwestiynau canlynol:

1. Trafodwch y rhan y mae'r gyfraith yn ei chwarae yn **un** o'r meysydd canlynol. Esboniwch pam y gallai hynny fod yn ddadleuol. Trafodwch sut ac i ba raddau y gallai'r gyfraith gyfrannu at ddatrys y problemau yn y maes:
 - a. Protestiadau a gwrthdystiadau cyhoeddus;
 - b. Bwlio;
 - c. Lleihau nifer y ceir ar y ffyrdd;
 - d. Gweithwyr ar gyflogau isel.
2. Esboniwch 'cyfraith' a 'chyfiawnder'. A all cyfraith fod yn anghyfiawn? A all yr hyn sy'n gyfiawn fod yn groes i'r gyfraith o gwbl?
3. A ddylai fod gan bobl hawl i ryddid i lefaru hyd yn oed os yw'n peri tramgwydd i eraill, neu os oes posibilrwydd y gallai wneud hynny?

ADRAN B (30 MARC)

Yn ôl y gyfraith sy'n ymwneud â difrod troseddol:

Mae Adran 1 Deddf Difrod Troseddol 1971 yn dweud hyn:

- (1) "Bydd unrhyw un sydd heb esgus cyfreithiol yn dinistrio neu ddifrodi unrhyw beth sy'n eiddo i arall, gan fwriadu dinistrio neu ddifrodi'r eiddo hwnnw neu fod yn ddi-hid a yw eiddo o'r fath yn cael ei ddinistrio neu'i ddifrodi, yn euog o drosedd."

Chi yw'r barnwr sy'n gorfod dod i benderfyniad yn achosion yr unigolion canlynol:

- a. Yr arlunydd Banksy, sydd wedi paentio murlun ar wal tŷ Sian. Mae'r tŷ bellach yn werth hanner miliwn o bunnau yn fwy nag yr oedd yn flaenorol.
- b. Tanya, sy'n casáu gwaith Banksy ac sy'n paentio graffiti, sef gair anwedus, uwchben y murlun.
- c. Martin, cymydog busneslyd, sy'n credu bod y graffiti yn gwneud y stryd i edrych yn anniben, ac sydd felly'n paentio dros y murlun a wnaeth Banksy, yn ogystal â graffiti Tanya.

ADRAN C (30 MARC)

Mewn anghydfodau ynglŷn â gofal plant 'mae llawer o'r rhai sy'n beirniadu hawliau plant heddiw yn amddiffynwyr brwd o...hawliau rhieni'; mae gwahanol ymagweddau moesegol tuag at blant a rhieni yn gwneud honiadau anghymesur ynglŷn â...hawliau'r naill barti a'r llall. Gall dadleuon ynglŷn â hawliau awgrymu, yn achos plant: bod ganddynt hawliau; bod ganddynt hawliau y dylai eraill (yn enwedig rhieni) roi llais iddynt; nad oes ganddynt hawliau. Ac yn achos rhieni: bod ganddynt hawliau sy'n seiliedig ar eu gallu i hyrwyddo lles eu plentyn/plant; bod ganddynt hawliau dros eu plant sy'n rhan annatod o'u statws fel rhieni. Birchley G: *'Charlie Gard and the weight of parental rights to seek experimental treatment.'* Journal of Medical Ethics 2018;44: 448-452.

Rhowch ddwy ddadl o blaid caniatáu i lys derfynu triniaeth feddygol ar gyfer plentyn sy'n derfynol wael yn erbyn dymuniadau ei rieni, a dwy ddadl i gefnogi'r ddadl y dylai'r driniaeth ar gyfer y plentyn barhau os yw'r rhieni yn dymuno hynny.